Stonewall
CYMRU



Ninnau Hefyd!

Ymdrin ag anghenion 'cymuned o ddiddordeb' angof Cymru

Adroddiad Asesu Stonewall Cymru, Mis Gorffennaf 2004

Noddwyd gan Sefydliad Lloyds TSB

Stonewall Cymru

Bangor
Tŷ Gwydr / Greenhouse
1, Rhes Trefelyan
Bangor, Gwynedd, LL57 1AX
Ffôn: 01248 370082 / 0845 4569823
Ffacs: 07092 333962

Caerdydd
d/o CCC
Tŷ Windsor, Lôn Windsor
Caerdydd CF10 3GE
Ffôn: 029 2023 7744
Ffacs: 029 20641079

Diolchiadau
Sefydliad Lloyds TSB
i Gymru a Lloegr
Dylunio: Jim Killock www.hebffinia.com
Lluniau: Michael Cheetham
http://wizdenwowworks.co.uk

Rhagair

Diffiniad 'cymuned o ddiddordeb' yw grŵp o bobl a gysylltir gan ddiddordeb neu nodwedd sy'n gyffredin iddynt yn hytrach na lleoliad daearyddol. Mae cymuned o'r fath yn bod yng Nghymru, yn cwmpasu gymaint â 200,000 o bobl, ar wasgar ledled Cymru, nad yw darpariaeth gwasanaethau gyda chyllid priodol prin yn bodoli ar ei chyfer mewn llawer o ardaloedd.

Ffurfir y lleiafrif arwyddocaol hwnnw gan bobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol sy'n cynnwys hyd at 7% o'r boblogaeth ac yn dioddef rhagfarn, arwahanrwydd ac aflonyddu yn ddyddiol, a hynny nid oherwydd unrhyw fai personol.

Mae cydraddoldeb yn ennill ei blwyf yn y DU. O fewn ychydig flynyddoedd, bydd gennym un comisiwn ar gydraddoldeb a hawliau dynol yn cwmpasu oed, anabledd, rhyw, hil, crefydd a chyfeiriadedd rhywiol. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y blaen o ran arferion gorau modern gyda'i ddyletswydd sefydlol i roi sylw dyledus i gydraddoldeb cyfle i bawb yng ngweithrediad ei fusnes ac ymarferiad ei ddyletswyddau.

Ond mae gwasanaethau ac isadeileddau sylfaenol ar gyfer un edefyn o gydraddoldeb (cyfeiriadedd rhywiol) yn llusgo ar ôl y gweddill.

Cydnabyddwn yr ymrwymiad i gydraddoldeb a amlygodd Llywodraeth Cynulliad Cymru drwy helpu i sefydlu Stonewall Cymru a'i gyllido yn bartner ymgynghori. Paratowyd y ddogfen hon gennym oherwydd ein bod wedi'n mandadu i gynorthwyo'r Cynulliad i ddatblygu polisïau a gwasanaethau, a chyflwynir ynddi argymhellion eglur ar y camau sydd i'w cymryd i greu darpariaeth realistig a blaengar ar gyfer pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol yng Nghymru.

Deillia'r argymhellion o archwiliad diweddar ar y gwasanaethau sy'n bodoli ac asesiad o anghenion gwasanaeth. Grant gan Sefydliad Lloyds TSB i Gymru a Lloegr wnaeth hyn yn bosib, a diolchwn iddynt.

Gobeithiwn y bydd yn gyfrwng i amlygu rhan hanfodol o ystod cydraddoldeb yng Nghymru a esgeuluswyd, ac yn creu cydnabyddiaeth bod pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn gymuned o ddiddordeb sydd dan anfantais, er mwyn medru sicrhau'r cymorth sydd ei angen arnynt.

Jenny Porter Swyddog Datblygu Cymunedol

Sylvia Jones a **Neil Wooding** Cyd-Gadeiryddion Stonewall Cymru

Mis Gorffennaf 2004

Cefndir

'Problem' pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol [LHD[1]] wastad, ac yn parhau felly, yw'r camwahaniaethu homoffobig maent yn ei wynebu o fewn cymdeithas. Gall hyn amrywio o anwybodaeth, cyfreithiau camwahaniaethol a diarddeliad i elyniaeth lwyr, trais ac ymosodiadau ar hap. Oddi ar y 1970au, mae pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol wedi ymdrefnu'n grwpiau ledled Cymru sy'n darparu hunangymorth, cefnogaeth cymheiriaid, gwybodaeth, a mannau diogel i gymdeithasu. Bu'r gwasanaethau gwirfoddol yma'n anhepgor. Hyd yn ddiweddar, nid oedd y gymdeithas gyffredinol wedi sylwi ar holl sector yma, a nid oedd wedi'i gyfrif yn wasanaeth oedd ag angen adnoddau a chynllunio strategol.

Mae ar hyn o bryd 34 o grwpiau amrywiol sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol yng Nghymru, 20 ohonynt yn cael eu rheoli gan wirfoddolyddion lesbiaidd, hoyw a deurywiol ar gyfer pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol, a 14 o rai eraill sy'n cefnogi pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol tra'n gweithio ar ran grwpiau targed penodol eraill megis ieuenctid, undebyddion llafur a phobl ddigartref.

30 mlynedd wedi i'r grwpiau cefnogi cyntaf ddechrau ymddangos ledled

Cymru, mae camwahaniaethu'n dal i fod yn elfen barhaol a chyfyngol ym mywydau pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol. Datgelodd arolwg Cymru gyfan Stonewall Cymru (Eich Cyfrif neu'ch Eithrio, 2003) fod, er enghraifft, 35% o'r rhai a atebodd yn dweud iddynt ddioddef ymosodiad corfforol; nododd 25% iddynt gael eu diswyddo oherwydd eu rhywioldeb ac 20% iddynt guddio'u hunaniaeth rywiol yn y gwaith.

Drwy'r rhan fwyaf o Gymru, mae person sy'n 'dod allan' yn parhau i wynebu'r posibilrwydd y bydd y teulu a chyfeillion yn ymwrthod â nhw, ac o gamwahaniaethu, sarhad ac hyd yn oed drais corfforol. Bydd miloedd (yn ddealladwy) yn dal i ddewis cuddio'u cyfeiriadedd rhywiol, ac mewn perygl o ddioddef arwahanrwydd, diffyg hunanhyder, tanberfformio a hunan-niwed o ganlyniad. Dyma'r cefndir i'r angen sydd o hyd am grwpiau cefnogi lesbiaidd, hoyw a deurywiol lleol.

Yn anecdotaidd, gwyddid ers tro gymaint y tu ôl i rwydweithiau hunangymorth eraill y mae grwpiau o'r fath yn nhermau cyllido, adnoddau a chefnogaeth gyfundrefnol. Y llynedd golygodd grant gan Sefydliad Lloyds TSB i Gymru a Lloegr y gallai Stonewall Cymru o'r diwedd asesu'r sefyllfa bresennol yn fanwl drwy gasglu data gan ddarparyddion gwasanaethau a defnyddyddion gwasanaethau.

Ar yr un pryd, cynhaliwyd gwerthusiad anghenion manwl. Mae'r argymhellion a gyflwynir isod yn deillio'n uniongyrchol o gasgliadau'r ymchwil yma.

Stonewall Cymru

yw'r unig gorff Cymru gyfan sy'n gweithio ar ei ben ei hun a mewn partneriaeth ag asiantaethau, cyrff, cyrff statudol ac unigolion eraill er mwyn:

- Hyrwyddo hawliau dynol a thriniaeth gydradd i bobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol.
- Herio camwahaniaethu yn erbyn pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol.
- Rhoi llais i anghenion a diddordebau pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol a mynegi'r rhain i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a chyrff cymwys eraill.
- Atgyfnerthu a datblygu'r isadeiledd gyda chymunedau lesbiaidd, hoyw a deurywiol ledled Cymru i'w galluogi i gyfrannu at a chael cynrychiolaeth mewn datblygiadau polisi.

"Nid oedd y gymdeithas gyffredinol wedi sylwi ar holl sector yma, a nid oedd wedi'i gyfrif yn wasanaeth oedd ag angen adnoddau a chynllunio strategol"

Argymhellion allweddol

1 Bod pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn cael eu cydnabod yn 'gymuned o ddiddordeb' gymwys yng nghyd-destun cynlluniau nawdd a rhaglenni cynhwysiad cymdeithasol megis Cymunedau'n Gyntaf. Rhoi ystyriaeth benodol i brif ffrydio cydraddoldeb lesbiaidd, hoyw a deurywiol ac astudio sut y gallai nawdd gefnogi canlyniadau cydraddoldeb ac amrywioldeb er mwyn cynyddu cynhwysiad pobl sydd wedi'u neilltuo'n gymdeithasol.

2 Bod homoffobia yn cael ei herio o fewn cymdeithas er mwyn creu Cymru sy'n ddiogel i bobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol fyw ynddi heb aflonyddu, camwahaniaethu, bwlio na throseddau casineb na'u hofni chwaith: mewn addysg, yn y gweithle, ac yn eu bywydau beunyddiol.

3 Bod fforymau lesbiaidd, hoyw a deurywiol rhanbarthol yn cael eu datblygu a'u cefnogi, yn unol â rhwydweithiau lleiafrifol cyffelyb drwy'r sector cydraddoldeb a gwirfoddol. Daw fforwm o'r fath â'r rhan hon o'r sector gwirfoddol i'r amlwg a chynorthwyo cyfathrebu er mwyn i'r ddwy bartneriaeth strategaeth gymunedol leol glywed

llais pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol, a galluogi i'r gymuned lesbiaidd, hoyw a deurywiol leol ganoli gwybodaeth a gwybodaeth ar arferion gorau yn ogystal â rhwydweithio ar draws y rhanbarthau.

4 Bod darpariaeth hyfforddi a datblygu'n cael ei sefydlu i hybu rheolaeth ac ansawdd gwasanaeth o fewn y sector gwirfoddol lesbiaidd, hoyw a deurywiol.

5 Bod gwybodaeth gyhoeddus yn cael ei darparu'n gyffredinol ar sut i gysylltu â grwpiau lesbiaidd, hoyw a deurywiol lleol. Gellid amcangyfrif mai llai na 3% o bobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol yng Nghymru sydd ar hyn o bryd yn defnyddio gwasanaethau lesbiaidd, hoyw a deurywiol, ac hwyrach bod hyn o ganlyniad i fethu â chael gafael ar wybodaeth. Mae ofni cael eu 'datgelu' yn lleol a chamwahaniaethu cymdeithasol wedi rhwystro'r grwpiau eu hunain yn rhy fynych o lawer rhag cysylltu â'r mannau gwybodaeth traddodiadol [llyfrgelloedd, Canolfannau Cynghori ayb] i hysbysebu eu gwasanaethau, a phobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol rhag dod o hyd i'r wybodaeth. Bu'n wasanaeth cudd am gyfnod rhy hir.

6 Bod llinell gymorth gyda chefnogaeth cymheiriaid lesbiaidd, hoyw a deurywiol 24/7 Cymru gyfan yn cael ei sefydlu. Dylai llinell gymorth o'r fath ddarparu cefnogaeth cymheiriaid ar gyfer pobl sydd mewn trafferthion yn sgîl eu cyfeiriadedd rhywiol, dylai fod yn hawdd i'w defnyddio ac yn cael ei rheoli gan bobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol.

7 Bod rhagor o grwpiau'n cael eu sefydlu ledled Cymru i ateb anghenion rhieni lesbiaidd, hoyw a deurywiol a'u plant, a phobl sy'n iau, yn hŷn, ag anabledd, mewn trafferth oherwydd dibyniaeth, defnyddyddion iechyd meddwl, pobl sy'n siarad Cymraeg sydd â'u cyfeiriadedd rhywiol yn elfen ddiffiniol yn eu heithrio a'u hanfantais.

8 Bod hyfforddiant ymwybyddiaeth ar sut i adnabod ac ymateb i anghenion penodol pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn cael ei ddarparu'n gyffredinol ar gyfer darparyddion gwasanaethau. Mae angen i'r sectorau cyhoeddus a phreifat fedru adnabod ac ymateb i anghenion penodol person lesbiaidd, hoyw a deurywiol beth bynnag fo'r amgylchiadau, a cheisio creu llwybrau i sicrhau mwy o ymwneud, ymgynghori a chynrychiolaeth ar gyfer pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol.

" sicrhau fod rhaglenni cynhwysiad cymdeithasol yn cydnabod bod pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn gymuned o ddiddordeb"

Conglfeini isadeiledd lesbiaidd, hoyw a deurywiol

Mae Stonewall Cymru wedi paratoi'r rhestr ganlynol o'r hyn sy'n hanfodol er mwyn mynd i'r afael â'r argymhellion allweddol a sicrhau canlyniadau fydd yn golygu ansawdd bywyd gwell a mwy o rym i bobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol. Bydd Stonewall Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â'r gymuned lesbiaidd, hoyw a deurywiol i ddatblygu'r conglfeini yma wrth i gyrhaeddiad a mynediad at nawdd ddatblygu.

Mynediad at nawdd ar gyfer grwpiau lesbiaidd, hoyw a deurywiol: Gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru ac asiantaethau nawdd er mwyn sicrhau fod rhaglenni cynhwysiad cymdeithasol yn cydnabod bod pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn gymuned o ddiddordeb, ac amcanion ariannu yn cwmpasu canlyniadau cydraddoldeb. Caiff cyflwyno'r ffrydiau ariannu yma effaith hynod gadarnhaol ar bob agwedd ar ddarpariaeth lesbiaidd, hoyw a deurywiol yng Nghymru.

Rhwydweithiau cefnogi ar gyfer pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol: Gweithio gyda grwpiau lesbiaidd, hoyw a deurywiol, unigolion a rhwydweithiau anffurfiol sy'n bodoli er mwyn sefydlu beth bynnag tri fforwm rhanbarthol. Bydd pob fforwm yn hwyluso cyfathrebu, ac felly'n lleihau arwahanrwydd, yn cynyddu cefnogaeth, canoli gwybodaeth a ffurfio sylfaen ar gyfer cydgysylltu o fewn rhanbarth, a gyda fforymau rhanbarthol eraill.

Mynediad diogel i bob gwasanaeth, heb gamwahaniaethu, ar gyfer pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol: Sefydlu llwybrau ymgynghori a chynrychiolaeth ar gyfer pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol gyda llunyddion polisi lleol. Cynnal cynhadledd i gyrff gwirfoddol nad ydynt yn lesbiaidd, hoyw a deurywiol a llunyddion polisi ynglŷn â materion ac anghenion lesbiaidd, hoyw a deurywiol gyda gweithdai hyfforddi. Galluogi mwy o ymwneud ag agendâu polisi lleol, asesu a chynllunio strategol ar gyfer darpariaeth gwasanaethau lesbiaidd, hoyw a deurywiol drwy'r rhanbarth.

Gwasanaethau cefnogi cadarn ar gyfer grwpiau lesbiaidd, hoyw a deurywiol: Hwyluso mynediad i gymhorthion ar gyfer rheolaeth, casglu arian ac arferion gorau a rhaglenni hyfforddi, a chefnogi datblygu côd ymarfer ar gyfer darpariaeth gwasanaethau lesbiaidd, hoyw a deurywiol.

Prif gasgliadau

Cyllid

Nododd 36% o'r grwpiau nad oedd unrhyw incwm blynyddol ganddynt ac yr oedd 36% arall â'u hincwm gweithredu yn llai na £1000. Roedd 50% wedi derbyn nawdd sefydlu ond heb fod yn derbyn dim i'w cynorthwyo i gynnal eu hunain. Mae adnoddau a ddarperir i grwpiau lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn annigonol iawn o'u cymharu â'r rhan fwyaf o adrannau eraill y sector gwirfoddol. Mae grwpiau lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn crybwyll amharodrwydd i geisio mynediad i gymorth awdurdodau leol oherwydd ofni cael eu 'datgelu' yn lleol neu aflonyddu o ryw fath neu'i gilydd.

Ychydig o ffrydiau nawdd sy'n ennyn ceisiadau gan grwpiau lesbiaidd, hoyw a deurywiol. Canolbwyntia llawer o ffynonellau nawdd ar addysg a chyflogaeth. Nid ydynt yn addas ar gyfer grwpiau sy'n darparu cefnogaeth cymheiriaid i bobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol, y mae eu problemau'n deillio o anawsterau cysylltiedig ag ymateb cymdeithas i'w cyfeiriadedd rhywiol.

Mae nawdd cyfredol ar gyfer cynhwysiad cymdeithasol wedi dechrau cydnabod y gall cynlluniau'n seiliedig ar ddaearyddiaeth beidio â chyrraedd cymunedau o bobl a unir gan ddiddordeb sy'n gyffredin iddynt. Ond yng Nghymru nid yw'r ffrydiau nawdd yma wedi ystyried pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn gymuned o ddiddordeb. Pobl nad ydynt yn debygol o ymgynnull mewn un ardal ddaearyddol rhag dioddef camwahaniaethu, gan deithio ymhell er mwyn galw ar grwpiau o gymheiriaid sydd wedi'u tangyllido neu eu cyllido'n wael er cymorth a chyngor. Mae'r diffyg mynediad yma at nawdd cynhwysiad cymdeithasol yn effeithio er gwaeth ar bobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol.

Nid yw pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn grŵp unffurf wrth reswm. Ceir pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol o fewn grwpiau eraill fydd yn llwyddo i sicrhau nawdd, pobl ifainc a duon, lleiafrifoedd a phobl ethnig, er enghraifft. Ond bydd pryder ynglŷn â homoffobia yn aml yn creu rhwystr rhag medru cyflwyno problemau penodol cysylltiedig ag eithrio oherwydd cyfeiriadedd rhywiol. Bydd profiadau o eithrio cymdeithasol seiliedig ar gyfeiriadedd rhywiol yn fynych yn parhau ynghudd ac heb eu trin o fewn rhaglenni nawdd.[2]

Canlyniadau prinder nawdd:

Mae diffyg nawdd a chyrhaeddiad gwael yn arwain at ganolbwyntio ar wasanaethau rheng flaen ar draul rheolaeth, gyda diffyg cyfrif am y gwaith a gyflawnwyd a hynny, yn ei dro, yn esgor ar anallu i wneud ceisiadau am nawdd. Roedd 72% o'r grwpiau sampl yn dibynnu'n llwyr ar wirfoddolyddion, a chan mai cefnogaeth cymheiriaid oedd swyddogaeth y grŵp byddai disgwyl i'r

"Nododd 36% o'r grwpiau nad oedd unrhyw incwm blynyddol ganddynt ac yr oedd 36% arall â'u hincwm gweithredu yn llai na £1000"

Prif gasgliadau, parhad

gwirfoddolyddion yma fod yn lesbiaidd, hoyw a deurywiol eu hunain, a gall hyn achosi problemau gyda recriwtio a rheolaeth. 36% yn unig o'r grwpiau oedd yn dweud bod ganddynt gyfansoddiad a Chyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol a nododd 36% arall eu bod ar y gweill.

Natur y grwpiau:

Mae grwpiau lesbiaidd, hoyw a deurywiol sy'n bodoli yn y bôn yn cynnig cefnogaeth cymheiriaid: pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn cynnig cyfeillgarwch a chymorth un sydd yn yr un sefyllfa ac yn wynebu materion tebyg. Bydd y grwpiau hyn yn cynnig cyfle i fynychu cyfarfodydd a digwyddiadau cymdeithasol er mwyn mynd i'r afael â theimladau o arwahanrwydd ac anawsterau cysylltiedig â 'dod allan' ac ymdrin ag agweddau cymdeithasol camwahaniaethol. Mae egwyddorion a swyddogaethau hanfodol y grwpiau hyn yn debyg i rai cyrff cyffelyb, megis Gingerbread, corff cefnogi ar gyfer teuluoedd un rhiant. Roedd 50% o'r grwpiau a ymatebodd yn bod ers mwy na 10 mlynedd.

Arwahanrwydd grwpiau:

Mae 65% o grwpiau lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn hunanlywodraethol o ran eu gwaith a gallant fod yn gweithio y tu hwnt i ddylanwadau'r sector gwirfoddol a'r gymuned lesbiaidd, hoyw a deurywiol.

Gall yr arwahanrwydd yma gael ei gynyddu fwy byth yn achos grwpiau arbenigol [e.e.: grwpiau lesbiaid yn unig] gan yr angen sydd ganddynt i gynnal ffiniau gwasanaethau. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gyfundrefnau sefydlog ar gyfer cyfathrebu a rhannu gwybodaeth a gwybodaeth ar arferion gorau â grwpiau eraill, yn ôl rhanbarth nac arbenigedd. Yn aml, byddai'r unig gysylltiad rhwng cynrychiolyddion y gwahanol grwpiau yn digwydd mewn clybiau hoyw, neu ddigwyddiadau a drefnwyd gan asiantaethau allanol.

Yr amcangyfrif yw bod cyn lleied â 3% o'r bobl sy'n galw eu hunain yn lesbiaidd, hoyw a deurywiol ar hyn o bryd yn defnyddio gwasanaethau. Yn ôl y grwpiau mae mwy o lesbiaid yn defnyddio'u gwasanaethau na dynion hoyw.

Llinellau cymorth:

Serch mai llinellau cymorth yw'r cyfrwng a ddefnyddir fwyaf i gael gwybodaeth ar wasanaethau lesbiaidd, hoyw a deurywiol nid oes llinell gymorth lesbiaidd, hoyw a deurywiol Cymru gyfan nac ychwaith system i gydlynu'r llinellau cymorth lesbiaidd, hoyw a deurywiol lleol. Cyfyngir ar yr oriau agor gan argaeledd y gwirfoddolyddion lesbiaidd, hoyw a deurywiol i'w cynnal.

"Mae egwyddorion a swyddogaethau hanfodol y grwpiau hyn yn debyg i rai cyrff cyffelyb, megis Gingerbread, corff cefnogi ar gyfer teuluoedd un rhiant"

Methodoleg asesu

Roedd dwy ran i'r broses asesu: mapio'r gwasanaethau a ddarperir yn bresennol gan grwpiau lesbiaidd, hoyw a deurywiol ac ymgynghori cymunedol ar y ddarpariaeth gwasanaethau ar gyfer pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol. Mae Stonewall Cymru ar hyn o bryd yn gweithio mewn partneriaeth â phobl drawsryw a thrawsrywiol yng Nghymru sydd hefyd yn dioddef rhagfarn ac aflonyddu, ond mai ailgyfeirio rhyw sydd o bwys iddyn nhw, a'u cyfeiriadedd rhywiol naill ai'n gyfunrywiol neu ddim.

Ymarferiad mapio

Buom mewn cysylltiad â'r 34 o grwpiau sydd yng Nghymru y gwyddys eu bod yn darparu gwasanaethau ar gyfer pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol. Roedd 20 o'r grwpiau hyn yn darparu gwasanaethau'n benodol gyda gwirfoddolyddion lesbiaidd, hoyw a deurywiol ar gyfer pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol, ac roedd 14 o gyrff eraill hefyd yn cefnogi pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol wrth weithio ar ran grwpiau targed penodol eraill megis ieuenctid yn gyffredinol, undebyddion llafur a phobl ddigartref. Anfonwyd holiaduron i'r 34 grŵp yma, a derbyniwyd 14 ohonynt yn ôl – cyfradd dychwelyd o 41%.

Ymgynghori cymunedol

Drwy gyfrwng nawdd gan Sefydliad Lloyds TSB i Gymru a Lloegr, cynhaliodd Stonewall Cymru bedwar gweithdy rhanbarthol (Gogledd, Canolbarth, De Orllewin a De Ddwyrain Cymru), yn ogystal â gweithdy arall i astudio darpariaeth gwasanaethau llinellau cymorth lesbiaidd, hoyw a deurywiol ledled Cymru. Estynnwyd gwahoddiad i 600 o aelodau Stonewall Cymru, ac aelodau o'r grwpiau lesbiaidd, hoyw a deurywiol lleol, i fynychu gweithdy yn eu rhanbarth. Nododd pawb a gymerodd ran eu bod yn lesbiaidd, hoyw a deurywiol, ar wahân i ddau aelod o FFLAG[2].

Cyflogwyd hwylusyddion annibynnol i gynnal y sesiynau ymgynghori er mwyn helpu i sicrhau gwrthrychedd y gwaith. Cyn y gweithdy, llenwyd holiaduron gan y rhai oedd yn bresennol, a ffurflen ymateb ar y diwedd. Cymerodd 125 o bobl ran gan gynnwys cynrychiolyddion 15 o'r cyrff lesbiaidd, hoyw a deurywiol sydd yng Nghymru.

Troednodiadau

1 Mae LHD yn gyfateb i'r Saesneg LGB ac yn cyfeirio at lesbiaid, hoywon a deurywolion

2 Mae'r ymadrodd 'eithrio cymdeithasol' yn disgrifio neilltuo o un neu fwy o'r canlynol: cyflogaeth, incwm, rhwydweithiau cymdeithasol megis y teulu, cymdogaeth a'r gymuned, gwneud penderfyniadau ac ansawdd bywyd digonol

3 Friends & Family of Lesbian and Gay People